

Cyngor Bro Morgannwg  
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri CF63 4RU. Rhif ffôn: (01446) 700111  
The Vale of Glamorgan Council  
Civic Offices, Holton Road, Barry, CF63 4RU. Telephone: (01446) 700111  
[www.bromorgannwg.gov.uk](http://www.bromorgannwg.gov.uk)

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg/Correspondence is welcomed in Welsh or English



## **GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS CYNGOR BRO MORGANNWG**

**2021**

### **DEDDF YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, TROSEDDU A PHLISMONA 2014**

Mae Cyngor Bro Morgannwg (y Cyngor) wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 59 a 72 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona 2014 (y Ddeddf) a dan yr holl bwerau galluogi eraill, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Bydd y Gorchymyn ar waith o'r **7fed Rhagfyr 2020** a bydd mewn grym am 3 blynedd ar ôl hynny, oni bai y caiff ei ymestyn gan Orchmynion pellach dan bwerau statudol y Cyngor.
2. Mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â'r meysydd penodol a restrir yn yr Atodlen isod.
3. Mae'r Cyngor yn fodlon bod yr amodau a nodwyd yn Adran 59(2) y Ddeddf wedi eu cyflawni. Sef bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig ag alcohol a gweithgaredd troseddol wedi eu cyflawni o fewn yr ardaloedd penodol. Mae i'r ymddygiad hwn effaith niweidiol ar ansawdd bywyd y rhai hynny yn y gymdogaeth, ac mae'n debygol y bydd y gweithgaredd yma yn mynd rhagddo o fewn yr ardal ac yn cael effaith o'r fath.
4. Mae'r Cyngor hefyd yn fodlon bod yr amodau a nodwyd yn Adran 59(3) y Ddeddf wedi eu cyflawni. Sef, bod effaith neu effaith debygol y gweithgareddau yn, neu yn debygol o fod, o natur gyson neu barhaus a bod y gweithgareddau hyn yn afresymol ac yn cyfiawnhau y cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn a'i bod yn wyneb yr holl amgylchiadau yn fuddiol gwneud y Gorchymyn er mwyn lleihau troseddau a /neu ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn lle cyhoeddus.

### **Cyfyngiadau**

1. Effaith y Gorchymyn yw gosod yr amodau canlynol ar yr Ardal Gyfyngedig:
  - 1.1 Yn yr Ardal Gyfyngedig mae person yn cyflawni trosedd os heb esgus rhesymol ei fod ef neu hi yn parhau i gyflawni gweithgaredd sydd wedi eu gwahardd iddo/iddi, sef;

- 1.1.1 Parhau i yfed alcohol pan fo Swyddog Awdurdodedig wedi gofyn i berson stopio.
- 1.1.2 Peidio ag ildio unrhyw alcohol sydd gan y person pan fo Swyddog Awdurdodedig yn gofyn iddo wneud felly.
- 1.1.3 Gwrthod â rhoi unrhyw gynhwysion (wedi'u selio neu heb eu selio) y credir bod alcohol ynddynt i Swyddog Awdurdodedig pan fo'n gofyn amdanynt.

2. Gall 'Swyddog Awdurdodedig' fod yn gyflogai i'r Cyngor, yn berson a ddynodwyd gan y Cyngor, Swyddog Heddlu neu Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu sydd wedi ei awdurdodi yn ysgrifenedig gan Gyngor Bro Morgannwg at ddibenion rhoi cyfarwyddiadau o dan y Gorchymyn hwn.

### **Hysbysiad Cosb Benodedig a Throseddau**

1. Mae'n drosedd i berson heb esgus rhesymol ymgymryd â'r gweithgareddau cyfyngedig ar y Gorchymyn hwn.
2. Yn unol ag Adran 63 y Ddeddf, bydd person y caiff ei ganfod ei fod wedi torri'r Gorchymyn hwn drwy yfed alcohol pan y gofynnwyd iddo beidio neu drwy wrthod ildio alcohol i berson awdurdodedig yn rhwym ar gollfarn ddiannod i uchafswm cosb o ddirwy lefel 2.
3. Gall person awdurdodedig osod Hysbysiad Cosb Benodedig ar unrhyw un y tybia ei fod ef neu hi wedi cyflawni trosedd. Byddwch yn talu Cosb is os telir o fewn **14 diwrnod**. Os talwch yr Hysbysiad Cosb Benodedig o fewn **29 diwrnod** ni chewch eich erlyn.

### **Atodlen**

#### **PENARTH**

**Parc Alexandra** gan gynnwys y Cyrtiau Tennis.

**Y Cymin** gan gynnwys yr holl diroedd a'r Pafiliwn.

**Pier Penarth, Rhodfa Lan Môr a Pharc Gwledig**

**Cliff Top, Cosmeston**

**Parc Hamdden Cogan** gan gynnwys yr holl ardaloedd chwarae a chaeau a'r maes parcio.

**Windsor Road Dingle** a adwaenir hefyd fel y Dingle.

**Caeau Chwarae Fictoria**

**Tiroedd Eglwys yr Holl**

**Seintiau, Sgwâr Fictoria**

**Gerddi Windsor**

**Ardal Chwarae Teras Penfro, Teras Penfro Cwrt-**

**Y-Vil/ Maes Hamdden Hen Benarthiaid Parc**

**Dewi Sant/Cae Sant Cyres**

#### **DINAS POWYS**

**Parc Bryn-y-Don**

## **Y RHWS**

Parc Milburn

Tiroedd ac ardal chwarae Canolfan Gymunedol y Rhws, Stewart Road.

**Gorsaf Drenau'r Rhws** a'r maes parcio, Torbay Terrace.

**Trwyn y Rhws**

## **LLANILLTUD FAWR**

**Y Sgwâr** gan gynnwys yr ardal o amgylch Neuadd y Dref a'i maes parcio. Yr ardal o flaen yr Old Swan a'r White Hart a'r ardal o amgylch y New Globe a adwaenir hefyd fel y Tudor Tavern gan gynnwys Burial Lane. Heol yr Eglwys a Wine Street cyn belled â Wesley Street a'r Hen Ysgol. Y lonydd cefn o gylch Island House cyn belled â Anchor Cottages ac at gyffordd The Strand.

**Parc Lorna Hughes** gan gynnwys y llwybr troed a'r ardal gerllaw.

**Ardal Siopa Poundfield** gan gynnwys y meysydd parcio a The Precinct a'r palmant rhwng ardal The Precinct a'r toiledau cyhoeddus.

**Caeau Chwarae Windmill** gan gynnwys y maes parcio a'r ardal chwarae.

**Gorsaf Drenau Llanilltud Fawr** a'r maes parcio gerllaw.

**Traeth Llanilltud Fawr**

## **Y BARRI**

**Broad Street** gan gynnwys yr ardal, o flaen Clwb y Savoy i ben pellaf

Gwesty'r Barri gan gynnwys palmentydd i ddwy ochr y ffordd.

**Parc Chickenwood**, a elwir hefyd yn Ardal Agored Ffordd Porthceri, oddi ar Ffordd Porthceri ac y tu ôl i Ysgol Fabanod a Meithrin Romilly.

**Parc Pencoedtre** o fewn ffiniau Ffordd Saint-y-brid, Ffordd Pencoedtre, Raldan Close a gerddi'r rhandiroedd.

**Parc Romilly** gan gynnwys pob ardal o fewn y ffens derfyn gan gynnwys y cwrt tenis, lawnt fowlio, a'r holl gysgodfeydd a'r ardal laswelltog sydd wedi'i hamgylchynu gan Romilly Park Road ychydig oddi ar Park Road.

**Parc Fictoria** gan gynnwys y llwyfan i fandiau, y maes chwarae, cyrtiau tenis a'r maes chwarae.

**Parade Gardens**, The Parade.

**Y Cnap** gan gynnwys y Promenâd, Gerddi'r Cnap Oer, maes parcio Bron y Môr, Knap Car Terrace a'r man agored gwyrdd sy'n ffinio â Marine Drive.

**Ynys y Barri** gan gynnwys Bae Whitmore, y Promenâd gan gynnwys y gerddi ger

Friars Road, y maes parcio, Paget Road, Station Approach a'r

Parc Diddanu, Parc Maslin, Plymouth Road, Archer Road rhwng Phyllis Street

a Plymouth Road Amherst Crescent a manau gwyrdd cyfagos, Ivor Street a

lonydd cefn cyfagos, Nell's Point, y man gwyrdd sy'n ffinio â Chapel Sant

Baruch, Bae Jacksons.

**Caeau Batts,**

**Parc Bassett**

**Parc Gladstone, Gerddi Gladstone, tiroedd a maes parcio'r Neuadd Goffa.**

Man Chwarae Hatch Quarry a gofod agored Parc Little Hill oddi ar Brock Street, (adwaenir hefyd fel Parc Brock Street).

**Ystâd Gibbonsdown** gan gynnwys Pendoylan Close, Michaelston Close, Coychurch Rise, Laleston Close, Ogmor Place a'r man gwyrdd cyfagos, Dale Court, St Catherine Court, Cwrt Pencoedtre, Clos Llawhaden, Aberaeron Close, Columbus Close, Magellan Close, Ramsey Road, St Brides Way a Skomer Road.

**Ystâd Thompson Street** gan gynnwys Thompson Street is, Belvedere Crescent  
gan gynnwys tiroedd y Ganolfan Gymunedol, y man chwarae a'r lonydd cefn.  
**Parc Gwledig Porthceri**

#### **Y BONT-FAEN**

**Parc Twt** o'r fynedfa oddi ar Town Mill Road i'r bont droed dros Afon Ddawan ac at y  
pwynt mynediad oddi ar y llwybr cyhoeddus o'r Stryd Fawr.

**Parc Poplars**

#### **ABEROGWR**

**Traeth Aberogwr a'r cyffiniau**